

<u>Targed</u>	<u>Beth yw y targed?</u>	<u>Esiampl</u>
Targed 1	Gwella'r sgiliau cyfeirnodol drwy brawf-ddarllen yn ofalus eich rhestr gyfeirnodol	Tudalen 18
Targed 2	Parhau i ddatblygu'r sgiliau gwerthuso beirniadol a synthesis.	Tudalen 5
Targed 3	Gwella'r sgil o ddadansoddi'n feirniadol drwy ymgysylltu â mwy o erthyglau academiaidd er mwyn gweld safbwyntiau gwahanol yn cael eu trafod.	Tudalen 7

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyriwch yn feirniadol ar sut byddech yn cefnogi dysgwyr unigol sydd a'i chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w ddysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Tabl cynnwys

***Rhan 1* t.3 - 10**

***Rhan 2* t. 11 - 16**

Proffil un tudalen t.11

Cynllun cymorth t.12 - 16

***Rhestr Gyfeirnod* t. 17- 19**

***Atodiadau* t. 20**

Rhan 1

Yn yr aseiniad yma, byddaf yn trafod ac adfyfrio ar strategaethau i gefnogi cynnydd disgybl sy'n derbyn addysgu yng Nghymru. Er pwrpas yr aseiniad, cyfeirir i'r ysgol gyda'r enw dychmygol "Ysgol Haul" (YH), a chyfeirir at y dysgwr dychmygol gyda'r ffugenw "Caleb". Mae Caleb yn fachgen pedwar blwydd oed, ac mae newydd ddechrau yn adran derbyn yr ysgol gynradd ers dechrau tymor yr Hydref. Mae Caleb wedi dod yn syth o'r cartref i'r ysgol, sy'n drosglwyddiad fertigol a phrofiad newydd yn ei fywyd cynnar. Yn ôl Fabian a Dunlop (2007), dechrau'r ysgol gynradd yw'r trosglwyddiad mwyaf pwysig ym mywyd plentyn. Mae'n her enfawr i oresgyn yn eu bywydau, ac yn brofiad maent erioed wedi bod trwyddo o'r blaen. (Guy-Evans, 2020) Dangoswyd model Bronfenbrenner bod yr ysgol o fewn y system feicro, sef un o ddylanwadau mwyaf uniongyrchol ym mywyd y plentyn, yn ogystal â'r teulu, ffrindiau, crefydd a gwasanaethau iechyd. (Siencyn, 2008, t.15) I Hynny yw, gall disgwyliadau ac agweddau cymdeithasol ddylanwadu'n fawr ar brofiadau caiff y plentyn, er enghraifft gall amodau gwaith y rhieni, sefyllfa ariannol a phwysau gwaith bod yn ffactorau gall effeithio ar y perthynas a'u rheini, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer y plentyn.

Cyfeirir at 'Profiadau Niweidiol mewn Plentynod' gyda'r byr enw 'PNmP' trwy gydol yr aseiniad. Mae rheini Caleb wedi gwahanu ers iddo fod yn flwydd a hanner oed, ac mae Caleb yn byw gyda'i fam llawn amser. Yn anffodus, mae tad Caleb yn camddefnyddio sylweddau, ac o ganlyniad nid oes perthynas cyson gyda Caleb a'i dad. (Lynch, 2020) Mae rhieni sydd wedi gwahanu, a cham-drin sylweddau o fewn y cartref yn ddau 'PNmP', a gall y ffactorau hyn effeithio ar agwedd ac ymddygiad y plentyn wrth iddo dyfu a datblygu. (Estyn, 2020) Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn diffinio 'PNmP' fel rhywbeth sy'n niweidio ar y plentyn yn uniongyrchol, neu'n effeithio ar yr amgylchedd maent yn byw ynddo, gan gynnwys ffactorau fel cam-drin sylweddau ac esgeuluso plentyn. Yn ychwanegol, dangoswyd tystiolaeth fod plant rhwng tri a phump oed gyda 'PNmP' pedair gwaith fwy tebygol o ymdawelu, tynnu sylw a gweld hi'n anodd gwneud ffrindiau. Gan hynny, y rhwystrau mwyaf i Caleb yn yr ysgol yw ei bod yn gweld hi'n anodd cymdeithasu yn effeithiol, dilyn trefn dosbarth, a darllen a chydymdeimlo gydag emosiynau a theimladau plant eraill i greu ffrindiau. Am fwy o fanylder am ymddygiad emosiynol a cymdeithasol Caleb, gwelir ei broffil yn rhan 2. Gan fod Caleb methu cyfathrebu yn effeithiol a deall sut mae plant yn teimlo, mae plant eraill yn edrych arno'n negyddol, ac mae rhai disgyblion yn ofni Caleb.

Canolbwyntir yr aseiniad ar sut i gefnogi a sicrhau cynnydd Caleb yn ystod cyfnod o drosglwyddiad fertigol wrth iddo symud o'r cartref i'r ysgol gynradd, gan gadw mewn meddwl y rhwystrau gall effeithio hyn. (Mind Tools, d.d) Trosglwyddiad yw phroses mewnol y meddwl dynol, sy'n newid y meddwl wrth mynd trwyddo broses o newid yn ein bywydau. Gall newid ddigwydd yn gyflym, tra bod trosglwyddiad yn broses fwy amserol a heriol i unigolion. (Rctcbc, d.d) Trosglwyddiad fertigol yw newid mawr i fywyd y plentyn, ac mae trosglwyddiad llorweddol yn ffurfio'r profiad yn ystod drosglwyddiad fertigol. Y drosglwyddiad fertigol ym mywyd Caleb yn bresennol yw dechrau ysgol am y tro cyntaf o'r cartref. Enghreifftiau o rhwystrau llorweddol gall effeithio trosglwyddiad fertigol Caleb yw chwarae gyda phlant i wneud ffrindiau, neu i wrando a dilyn cyfarwyddiadau i symud o'r dosbarth i'r iard chwarae'r un pryd a phawb arall. (Martinelli, 2021) Mae ymatebion unigolion yn wahanol ac yn amrywio wrth drosglwyddo, o osgoi sefyllfa, tynnu sylw oddi wrth y sefyllfa, cyd-drafod neu dorri i lawr i lefain. Mae Caleb yn debygol o dynnu sylw wrth y sefyllfa ac osgoi cyfarwyddiadau, a dydy ef byth yn torri lawr i lefain oni bai ei fod wedi brifo'n wael. Golygir hyn fod angen cefnogi Caleb yn emosiynol i adnabod ei deimladau personol, yn ogystal â phryd a pham i deimlo pa emosiwn. Ymhellach, mae angen i Caleb wneud ffrindiau i helpu ei drosglwyddiad o'r cartref i'r ysgol fod yn fwy pleserus, drwy ddeall a chydymdeimlo gyda theimladau eraill i fedru cyfathrebu yn effeithiol.

(Gwelir atodiad 1) Gwelir o hierarchaeth Maslow (Cherry, 2022) heb fod anghenion ffisiolegol plentyn wedi'u cwrdd, does dim lle i ddiogelwch, cariad, hyder a hunan ddatblygiad y plentyn ffynnu. Yn debyg i Maslow, nodwyd Llywodraeth Cymru (2022) bod angen blaenoriaethu lles personol plentyn, a chefnogi cynnydd wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plentyn. (Cherry, 2022) Cred Maslow fod anghenion cymdeithasol yn arwain ymddygiad dynol, gan gynnwys creu ffrindiau, cyfathrebu fel grŵp, a bod yn rhan o gymuned. Nodwyd Llywodraeth Cymru (2020) yn y cwricwlwm, erbyn diwedd cam gynnydd un bod dysgwyr yn dechrau adnabod cysylltiad y newidiadau emosiynol a corfforol sy'n digwydd, a sylwi ar eu teimladau a'u cyfathrebu. (Byrd, 2020) I gefnogi'r disgrifiad yma, mae plant mor ifanc â thri i bedair oed medru pwysleisio'i theimladau drwy chwerthin pryd yn hapus, neu lefain pryd maent yn grac neu'n drist. Dydy Caleb ddim yn dangos emosiwn ar adegau o hapusrwydd neu dristwch, ac os ofynnir i Caleb sut mae'n teimlo, nid yw'n gwybod sut i ymateb. Er hyn, gall Caleb ymateb drwy nodio neu siglo'i ben pryd mae oedolyn yn cyfathrebu gyda dull un gair ar y tro, er enghraifft "okay?". Mae'n dod ar draws fod diffyg dealltwriaeth gyda Caleb o eiriau i gyd-fynd gyda'i deimladau. Y dasg dewiswyd i ddechrau'r cynllun cymorth gydag (gwelir rhan 2) yw gêm teimladau i helpu Caleb adnabod beth yw'r gwahanol deimladau y gall deimlo, a sut mae ef ei hun medru adnabod y teimladau hynny. Arweinir y sgil o adnabod teimladau personol ymlaen at gam gynnydd dau, (Llywodraeth Cymru, 2020) lle

mae plant yn sylwi a dysgu meddwl am deimladau eraill. (Meggitt, 2006, t.85) Mae plant pedair oed yn hoffi bod gyda phlant eraill, ac yn aml yn dangos sensitifrwydd tuag at cyfoedion. Yn debyg, dywed Sang a Nelson (2017) fod plant yn ystod y trosglwyddiad i'r ysgol gynradd yn gwneud ffrindiau, a dysgu sut i drin eraill cyn anghenion ei hunain yn fwy aml. Cyn i Caleb feddwl gallu gwneud hyn, mae angen darganfod beth sy'n achosi Caleb i ymateb i blant eraill fel mae'n gwneud, a dysgu strategaethau i'w helpu adnabod ei deimladau ef ei hun i gallu datblygu sgiliau i gydymdeimlo gyda theimladau eraill.

(Webster-Stratton, 2010, t.264) Drwy ffurfio cyfeillgarwch o oedran ifanc, mae plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol drwy gydweithredu, rheoli gwrthdaro a rhannu. Gall meithrin cyfeillgarwch cyflwyno synnwyr y plentyn o berthyn i grŵp, a hwyluso sgiliau empathi. Dywed Schwartz (TEDx Talks, 2015) mae dim set o strategaethau neu fater lleoliad yw cynhwysiad, ond perthyn i gymuned, grŵp o ffrindiau, ac ysgol, yn debyg iawn i system feicro model Bronfenbrenner. Cred Schwartz fod rhaid dysgu plant sut i ryngweithio wrth roi cyfarwyddiadau iddynt, a dywed os mae oedolion am weld plant gwahanol yn gwneud cynnydd yn gymdeithasol drwy gydweithio a bod yn gyfeillgar efo'i gilydd, mae'n rhaid dysgu nhw sut i wneud hyn. Y brif ddadl yn erbyn Schwartz yn yr achos yma yw bod Caleb yn gweld hi'n anodd dilyn cyfarwyddiadau yn unig, a mwyafrif o'r amser mae'r cyfarwyddyd yn syth dros ei ben ac yn amhwrpasol i'r ffordd mae Caleb yn dysgu. Dull posib o ddangos i Caleb sut i drin eraill gyda pharch yw i fodeli'r weithred iddo. Soniwyd Bandura (Kurt, 2019), fod plant yn copio'r hyn a fodelwyd gan oedolion, a bod gwyllo oedolyn yn gwneud rhywbeth yn helpu plant ddeall, cymhwyso a defnyddio'r wybodaeth newydd yn eu bywydau nhw. Gyda gwybodaeth Schwartz a Bandura, cynlluniwyd gwrs i annog Caleb ddangos cyfeillgarwch i'r athrawes (gwelir gwrs 4 yn y cynllun cymorth). Pwrpas y wers yw cymysgu cyfarwyddiadau llafar gydag elfen o fodeli yn ymarferol, gan asesu'n wythnosol os mae Caleb yn gwneud cynnydd cymdeithasol drwy ddefnyddio'r cynllun 'Boxall' (gwelir diwedd cynllun cymorth yn rhan 2), ac adeiladu ar ei ddealltwriaeth.

Nid yw Caleb wedi cael profiad o blentyndod esmwyth, ac mae rhwystrau wedi codi yn ystod ei fywyd cynnar yn deuluol. Un trosglwyddiad fertigol, a rhwystr cymdeithasol ac emosiynol ym mywyd Caleb yw bod ei rheini wedi gwahanu. Dangoswyd ymchwil Harvard University (d.d), pan fydd perthynas yn chwalu, gall gwrthdaro rhwng y rhieni arwain at ddicter, straen a thensiwn, a gall hyn effeithio ar y plentyn, a'u perthynas gyda rhiant. Gall byw mewn amgylchedd fel hyn bod yn brofiad straenus ac emosiynol i'r plentyn. (Slade, 2022) Mae gwahaniad rheini yn 'PNmP', a olygir gall profiad bywyd cartref y plentyn fod yn heriol o ganlyniad. Yn anffodus, nid yw Caleb yn gweld ei dad yn gyson o ganlyniad i gam-drin sylweddau, sydd hefyd yn 'PNmP' i ychwanegu at fywyd Caleb. Yn 2016, dangoswyd

tystiolaeth iechyd Cyhoeddus Cymru (d.d) fod 47% o oedolion wedi dioddef o oleuaf un 'PNmP', a gall arwain i berfformiad academiaidd gwan yn yr ysgol, yn ogystal ag amrywiaeth o broblemau iechyd corfforol a meddyliol. O ganlyniad, mae'n bwysig sicrhau bod y rhiant sydd yn bresennol ym mywyd Caleb medru cydweithio gyda'r ysgol (Webster-Stratton, 2010, t.7) oherwydd gall cynnwys rhieni yn addysg y plentyn cael effeithiau cadarnhaol ar alluoedd cymdeithasol plant, yn ogystal â chyrhaeddiad academiaidd yn yr ysgol. Mae'r tasgau a chynlluniwyd i ddatblygu hyder cymdeithasol ac emosiynol Caleb (gwelir rhan 2) yn sicrhau bod y fam yn rhan o'r broses, yn ogystal ar ysgol. Y prif reswm am gynnwys y rhiant presennol yn addysg Caleb yw bod modd iddi ddysgu technegau o'r ysgol i fynd adref i fodeli i Caleb i cynyddu ei alluoedd cymdeithasol emosiynol, sy'n cysylltu i gasgliadau model Bandura. (Kurt, 2020) Gall yr oedolyn fodeli i adeiladu ar ddealltwriaeth y plentyn, yn debyg i ddamcaniaeth sgaffoldio Vygotsky, lle mae'r plentyn yn cyrraedd camau bach a chaiff ei rheoli er mwyn cyrraedd y nod. (Gwelir rhan 2) Er enghraifft, i Caleb chwarae efo plant eraill yn barchus, mae angen datblygu sgiliau emosiynol iddo ddeall teimladau eraill, a cymdeithasol i fedru cyfathrebu yn effeithiol. Cyn cyrraedd y camau mawr, mae'n rhaid i Caleb yn gyntaf ddatblygu sgiliau sylfaenol i ddysgu beth yw teimladau, a sut i reoli emosiynau ei hun cyn symud ymlaen i ddeall ac adnabod teimladau eraill, yn cyfeirio nol i cam cynnydd un a dau'r cwricwlwm. Gall yr athrawes a rhiant trafod yn wythnosol, a defnyddio proffil Boxall (Boxall Profile, 2020) i gadw cofnod o gynnydd wythnosol Caleb, gan sicrhau ei fod yn llwyddo mewn gweithgareddau wythnosol cyn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r dull yma o dracio cynnydd yn sicrhau bod cyswllt cyson rhwng y cartref ar ysgol i gyfateb gofynion y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2020) o gyfathrebu ac ymgysylltu gyda rheini.

Mae theori Rogoff (LibreTexts, 2022) yn debyg i Vygotsky, lle mae'r oedolyn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r plentyn drwy ddewis, arsylwi a gwrandao, a rhannu dealltwriaeth ar lafar neu yn ddi-eiriau. Gall hyn fod yn ddull o asesu dealltwriaeth drwy wneud ac adeiladu ar wybodaeth. Dysgais ar brofiad dysgu bod mwyafrif o ddisgyblion yn gwylio'r athrawes yn siarad ar blaen y dosbarth wrth fodeli dasg, ac mae'r disgyblion yn amsugno ac adeiladu ar wybodaeth i cwblhau tasg er mwyn dangos ei dealltwriaeth i'r oedolyn. (TEDx Talks, 2015) Mae Schwartz yn cytuno gyda Rogoff oherwydd mae'n pwysleisio'r ffaith bod angen oedolion i ddysgu plant oherwydd heb gyfarwyddion, nid yw dysgu yn digwydd. Soniwyd Schwartz am enghraifft o un sefyllfa ble mae cyfrifoldeb ar yr oedolyn i ddysgu plentyn sgiliau ar sut i ymuno efo grŵp o blant eraill gydag anghenion amrywiol. Pwysleisir y pwysigrwydd bod oedolyn yn dysgu'r sgiliau sylfaenol a wybodaeth sydd angen ar y plentyn i llwyddo yn gymdeithasol. (Corsaro, d.d) Barn Corsaro ar y llaw arall yw bod diwylliant plant ac oedolion ar wahân, er bod plant yn mynd ar wybodaeth briodol o ddiwylliant oedolion, maent yn

cynhyrchu diwylliant eu hunain. (Gwelir y cynllun cymorth yn rhan 2) Anghytunaf gyda Corsaro i raddau oherwydd gwelaf fod plant o bob oedran a gallu yn gweld hi'n anodd cyflwyno tasg heb cymorth a chyfarwyddiadau wrth yr athrawes. Y rheswm dros gynnwys oedolion fel rhan o gynllun cynnydd Caleb yw bod ganddo arwr i fodeli iddo sut i ymddwyn, ac adeiladu a sgaffaldio ei ddealltwriaeth i gwblhau tasgau mewn camau pwrpasol i helpu cynyddu ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

(Slade, 2022) Ar adegau, gall trefn ddyddiol plentyn sy'n dioddef o 'PNmP' fod yn gymysg, er enghraifft gall plentyn troi i fyny i'r ysgol heb gael brecwast, neu wedi blino. Mewn cymhariaeth, arweinir hyn yn ôl i hierarchaeth Maslow (Cherry, 2022), lle pwysleisiodd gall cynnydd ddim digwydd heb fod anghenion sylfaenol dynol wedi'i chyrraedd. Yr haen allweddol cyn i gynnydd ddatblygu yn ôl Maslow yw anghenion ffisiolegol fel bwyd a chwsg, yn gywir beth nad yw rhai disgyblion gyda 'PNmP' yn derbyn cyn cyrraedd yr ysgol. Mae 'YH' yn ysgol bwyta'n iach, sy'n dilyn canllawiau bwyta'n iach mewn ysgolion y Llywodraeth, a hefyd yn cynnig brecwast am ddim i ddisgyblion yr ysgol gyfan. Gwelwyd fod Caleb yn troi i fyny i'r ysgol ar ôl clwb brecwast, ac awgrymir hyn efallai nad yw ef yn bwyta cyn dod i'r ysgol. Mae Caleb yn derbyn cinio ysgol a llaeth am ddim fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru (2014), fel hawl sydd gan bob plentyn yn y meithrin a Chyfnod Sylfaen, a dsgwylir ymlaen i hyn pob dydd. Nodwyd Comisiynydd Plant Cymru (d.d) fod gan bob plentyn o dan 18 oed yr hawl i fwyd maethlon yn ogystal â dŵr glan. Dywed wybodaeth y BBC (Messenger, 2015) mae'n amlwg i athrawon pa ddisgyblion sy'n bwyta brecwast cyn dod i'r ysgol, ac mae'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o wneud yn dda yn academiaidd. Yn ychwanegol, mae rhai disgyblion sydd heb gael brecwast ddim cael effaith ar eu hymddygiad, a sylw. Gall hyn fod yn ddylanwad a ffactor ar pam mae Caleb yn colli sylw yn rhwydd, ac yn colli diddordeb wrth wneud tasgau academiaidd yn y dosbarth. Ar y llaw arall, gwelaf o brofiad mae dim bai'r disgyblion yw colli diddordeb ar y dasg pob tro, a bod llawer o gyfrifoldeb ar yr athro am ddim gosod tasg i allu neu ddull addysgegol dysgu'r plentyn.

Arweinir hyn ymlaen i gefnogi Caleb ymhellach gan sicrhau ei bod yn cael egwyl o'r dosbarth, a mynd tu allan i ryddhau egni (gwelir mwy o wybodaeth ar broffil Caleb). (Slade, 2022) Mae athrawon trugarog yn gyfranogiad mawr i amgylchedd gofalgar sy'n hybu hunan hyder eu disgyblion. (Llywodraeth Cymru, 2020) Mae cyfrifoldeb ar athrawon, yn ogystal ag ysgolion a chenedl i ddatblygu cwricwlwm i godi safonau pawb. I godi safonau academiaidd Caleb, mae angen i'r athrawes cydweithio'n agos i wrando ar ei lais ef, a dysgu technegau sy'n gweithio i dargedu ei anghenion dysgu personol. (Wilson, 2009, t.37) Gan hynny, mae dyletswydd ar athrawon ddatblygu sgiliau y gallant addasu i wahanol sefyllfaoedd. Yn sefyllfa Caleb, mae angen i'r athrawes ac oedolion bod yn fwy agored i glywed ei llais a

gofynion ef yn ogystal â dilyn ymagwedd ddosbarth cyfan. Dywed Rouse (Martinelli, 2021) bod ymateb y plentyn yn dibynnu llawer ar sut mae'r oedolyn yn siarad iddo mewn sefyllfa. (Llywodraeth Cymru, 2020) Mae llais y plentyn yn ganolog i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd yng Nghymru. (Estyn, 2018) Enghraifft dda o lais y disgybl yw yn ysgol Glan Usk, lle gwelir fod pob disgybl gyda llais arwyddocaol wrth lunio cwricwlwm dosbarth. Mae pob dosbarth gyda wal ddysgu, lle mae unigolion yn gosod syniad gwers hoffent ddysgu am, gyda sgiliau a chynllun unigol i gyrraedd y nod. (Webster-Stratton, 2010, t.34) Yn yr un ffordd, y cam gyntaf i athrawon adeiladu perthynas cadarnhaol gyda'i disgyblion yw dod i nabod unigolion, dangos diddordeb, adnabod ei natur a phersonoliaeth, ac ystyried beth sy'n gymorth i'r plentyn hwnnw.

(Mitra, 2001, t.91-94) Mae astudiaethau amrywiol wedi cadarnhau manteision i lais y disgybl, gan gynnwys mwy o ymgysylltiad disgyblion, gwell perthynas rhwng y disgybl ar athrawes, ac amodau i gymuned ysgol ddod yn gymuned ddysgu. Er hyn, mae'n ymddangos yn y data a gasglwyd gan Mayes, Finneran a Black (2019) fod plant hynach yr ysgol fwy ymwybodol o wybod beth yw llais y disgybl a'i phwysigrwydd, gyda her o gael disgyblion lleiaf yr ysgol i ddeall pwrpas a phwysigrwydd llais y disgybl. Ymhellach, ar brofiad dysgu gyda dosbarth derbyn, dysgais fod disgyblion lleiaf yr ysgol yn pwysleisio'i llais drwy ddewis. Er enghraifft, cynlluniais bedwar tasg iaith, gydag un grŵp yn cael mynd i chwarae pob dydd yn yr ardal allanol, tra roedd gweddill y grwpiau yn cael dewis pa weithgaredd i gyflwyno'r dydd hwnnw, a symud ymlaen i'r dasg nesaf y dydd i ddilyn. Mae'r dechneg yma o ddysgu yn debyg i'r dull Montessori (Meinke, 2019), lle mae'r athrawes yn symud o grŵp i grŵp fel bod y dysgwyr yn arwain gweithgareddau i annog annibyniaeth. (Llywodraeth Cymru, 2018) Roedd gwneud hyn yn dangos elfen o "dysgwyr yn arwain y dysgu", sy'n un o safonau proffesiynol i gynyddu datblygiad proffesiynol athrawon y gallaf ddefnyddio yn fy ymarfer personol drwy fireinio ar ddulliau addysgu yn raddol i ddylanwadu ar y dysgwyr a hybu'r dysgu. Gyda'r wybodaeth yma, i hybu datblygiad unigol Caleb, gall ef ychwanegu mewnbyn i beth mae ef am ddysgu ar y dydd. Y rheswm dros ddewis gweithgareddau mwy hwylus ac ymarferol yw cyfateb anghenion Caleb i lleihau'r amser eistedd a dysgu er mwyn i ddysgu digwydd.

Yn ogystal, nodwyd ar broffil Caleb ei fod yn bwysig iddo gael rhyddid i fynd tu allan o'r dosbarth i gael egwyl gyson, yn bennaf oherwydd ei bod yn gweld hi'n anodd canolbwyntio am gyfnodau hir o amser. Yn ysgol 'YH', mae ardal darmac, cae chwarae, gardd, a maes chwarae ar y campws. (Rees a Gealy, 2013, t.6) Manteision o gael ardal allanol yw bod plant medru rhedeg, neidio neu ddringo, bod yn swnllyd, dod i adnabod y byd natur, a gwneud llanast. (Richards, 2010, t.45) Yn y Cyfnod Sylfaen, un ffactor allweddol yw dylanwad yr amgylchedd ar y plentyn, a chyfrifoldeb y darparwyr yw creu amgylchedd

cartrefol a croesawgar i sbarduno dysgu plant. (Impact Wales, 2022) Mae 12 egwyddor addysgeg Donaldson o fewn y cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio bod athrawon yn adnabod anghenion y dysgwyr, yn cyfateb eu gofynion gyda dulliau addysgeg bwrpasol ac addas, ac yn asesu'r effaith drwy wirio cynnydd y disgyblion. Yn debyg, mae cyfrifoldeb ar athrawes Caleb i benderfynu pa amgylchedd mae Caleb yn gweithio ynddo orau, ac arbrofi o fewn yr amgylchoedd amrywiol i weld pa un sy'n gweithio orau i les Caleb. (Rees a Merriman, 2010, t.104) Cred Vygotsky fod plant gyda chefnogaeth oedolyn neu gyfoedion medru cyrraedd lefelau dysgu uwch drwy fynychu mewn gweithgareddau strwythuredig yn yr awyr agored. (Gwelir y cynllun cymorth) Er enghraifft, i gynyddu hyder cymdeithasol Caleb, mae angen dechrau gyda thasg i adeiladu geirfa Caleb i ddatblygu cwrteisi a pharch tuag at eraill, yna dod ac elfen o fodeli a chydweithrediad gan yr oedolyn, i wedyn symud ymlaen i chwarae gyda chyfeillion allan ar yr iard. Gan gofio, mae'r dull Montessori (Meinke, 2019) yn pwysleisio fod annibyniaeth y disgybl i ddewis yn wahanol i'r hyn a gasglwyd gan Vygotsky, ac mae rhoi rhyddid i Caleb yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau y bydd yn mwynhau'r hyn mae'n dysgu i gyfateb ei anghenion addysgeg. Y dull mwyaf pwrpasol i'r athrawes ddilyn wrth iddi asesu cynyddu hyder Caleb yn gymdeithasol ac emosiynol yw'r dull Reggio Emilia. (Child Discovery Centre, 2018) Mae'r dull yn debyg i gwaith Vygotsky o ran cael mewnbwn athrawon i helpu'r plentyn rhyngweithio yn gymdeithasol, er hyn yn debyg i'r dull Montessori, mae'r amgylchedd yn chwarae rhan fel y trydydd athro, ac rôl yr athro yw trefnu, cynnig cymorth a chynllunio tasgau ar gyfer y disgyblion. Awgrymir hyn bod y dysgwr yn arwain dysgu ei hunain, gyda'r athro yn bresennol i bartner gyda phlant i gyfnewid gwybodaeth, arsylwi a gwrandao, gan ofyn cwestiynau yn gyson i asesu cynnydd disgyblion.


I grynhoi, mae'n amlwg fod 'PNmP' wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol Caleb o'r wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd. I symud ymlaen, gall defnyddio'r proffil 'Boxall' i gadw cofnod ar gynnydd Caleb yn emosiynol a gymdeithasol. Yn unol â hynny, casglwyd o'r wybodaeth fod cyswllt cyson gyda'r fam yn mynd i helpu ysgogi'r athrawes gyda datblygiad Caleb, wrth iddi ymarfer a modelu yn ddyddiol yn y cartref y newidiadau emosiynol a cymdeithasol sydd angen iddo ymarfer, i atgyfnerthu theori Bandura (Cherry, 2022) lle mae'r oedolyn yn modelu i'r plentyn er pwrpas yr ymennydd naturiol dynol i arsylwi i ddysgu ymddygiadau. Yn ychwanegol, mae help gall ysgolion cynnig ar ei cyfer, er enghraifft (Estyn, 2020) y hwb cymorth 'PNmP' a caiff ei lansio yn 2018 i helpu hybu amgylchedd addas i newid, ac i gefnogi unigolion, cymunedau a sefydliadau adnabod beth yw'r heriau gyda 'PNmP'. Canolbwyntir yr hyfforddiant ar ddulliau i ddatblygu cynlluniau gweithredu strategol i sicrhau cynaliadwyedd hir-dymor dull ysgol gyfan o gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed.

Er pwrpas symud ymlaen gyda fy natblygiad proffesiynol personol, gallaf ystyried Caleb fel enghraifft o ddisgybl sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i 'PNmP'. Defnyddiaf wybodaeth a darganfuwyd o Bronfenbrenner i sicrhau lles disgyblion ar gymuned agos iddynt, tu fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Yn ogystal, gallaf adeiladu sgiliau tebyg i'r pump hanfodol yn fframwaith CASEL (2020), lle mae'n bwysig datblygu sgiliau hunan ymwybyddiaeth, rheolaeth, gwneud penderfyniadau cyfrifol, sgiliau i wneud perthnasoedd iachus, ac ymwybyddiaeth berthnasol. Gall y sgiliau helpu adeiladu perthynas iachus gyda chymuned ehangach yr ysgol, sy'n hanfodol pwysig i les disgyblion ac athrawon i lwyddo mewn meysydd amrywiol ar draws y cwricwlwm. (Llywodraeth Cymru, 2020) Yn ogystal, gall safonau proffesiynol y Llywodraeth fod o help i mi ddarganfod dulliau addysgeg addas i addysgu plant o wahanol cefndiroedd a galluoedd ar draws fy ymarfer dysgu a gyrfa. Gall y safonau dysgu mi sut i gydweithio gydag aelodau eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol sy'n mynd i cyfrannu at fanteisio lles staff, disgyblion a cymuned ysgol. Er enghraifft, mae'n bwysig cydweithio'n agos efo mam Caleb i gynnig cyfleoedd teg iddo yn yr ysgol, ac i gefnogi lles disgyblion a chymuned ehangach ble mae Caleb yn perthyn i. Enghraifft o asiantaeth gall fod yn rhan o ddatblygiad Caleb ymhellach yw ELSA (2017). Gellir defnyddio staff ELSA'r ysgol i helpu datblygu hyder cymdeithasol ac emosiynol Caleb wrth iddo ddatblygu ar draws trosglwyddiadau heriol wrth iddo barhau i dyfu, datblygu a chynyddu hyder. Rwy'n awyddus i ddysgu a datblygu sgiliau i oresgyn yr heriau sy'n dod gyda bod yn athrawes ragorol.

Rhan 2

Proffil Caleb

Dyma Caleb. Mae Caleb yn 4 blwydd oed, ac yn ddisgybl y derbyn yn ei flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd. Mae ganddo bedwar brawd, ac un chwaer. Mae ei chwaer ym mlwyddyn 5 yn yr un ysgol ag ef, ac mae'i frodyr i gyd yn yr ysgol uwchradd. Mae ganddo Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod gan fod ei rhieni wedi gwahanu, ac mae'n byw gyda'i fam llawn amser. Nid oes gan Caleb berthynas efo'i dad o ganlyniad i camddefnyddio sylweddau.



Hunan bortread gan Caleb

Beth mae eraill yn hoffi amdanaf

- Fy wen
- Fy ngwallt melyn
- Fy chwarddiad uchel

Beth dwi'n hoffi am fy hun

- Fy mod yn ddoniol
- Fy wen a dannedd
- Fy llygaid glas

Beth sy'n bwysig i mi?

- Amser i chwarae tu allan
- Fy 'Xbox'
- Amser ffrwyth a llaeth

Sut i'm cefnogi ymhellach?

- Amser allan o'r dosbarth yn gyson i ryddhau egni.
- Tasgau byr - dwi'n gweld eistedd lawr am gyfnodau hir o amser yn anodd, ac mae angen symud yn aml.
- Cyfleoedd i gymdeithasu a deall sut i fod yn gyfeillgar a cwrtais i blant eraill.

Cryfderau a meysydd datblygiadol

Datblygiad Ieithyddol

- Copio llythrennau ar bapur o'i blaen, er hyn mae ei sgiliau llafar heb ddatblygu'n llawn. Mae'n cael trafferthion datganu geiriau'n gywir.
- Mae ei eirfa Cymraeg yn datblygu'n araf, ac mae medru dweud geiriau syml fel 'helo', 'hwyl fawr' 'tŷ bach'. Nid oes achos o bryder bydd y iaith Gymraeg yn ddatblygu ar lefel dda. Mae'n fwy hyderus yn siarad Saesneg gan mae dyma'i mamiaith, er mae'n gweld hi'n anodd dweud geiriau'n gywir ac yn llawn.
- Nid yw medru darllen eto, er mae'n gwrando ar stori'n cael ei ddarllen iddo yn Saesneg, a deall beth sy'n mynd ymlaen oherwydd mae'n nodio neu siglo'i ben pryd mae'r darllenwr yn ei gwestiynu.

Datblygiad Corfforol

- Sgiliau echddygol bras wedi'u ddatblygu ar lefel da - cerdded, rhedeg, neidio, gyrru beic bach, troi a gwneud tasgau mewn gwersi ymarfer corff yn hyderus. Ar adegau, mae Caleb yn lletwith ar ei draed a cwmpo drosodd.
- Nid yw'n gallu gwisgo'i hun os caiff damwain.
- Mae sgiliau echddygol manwl Caleb ar lefel da - er enghraifft, gall torri darn o bapur gan ddilyn llinell, dal pensil mawr gyda'i law, a chwarae efo teganau bach fel 'Lego'. I wella, mae angen iddo ddysgu i ffocysu ar y dasg am gyfnodau hirach o amser oherwydd mae'n colli sylw yn gyflym.

Datblygiad Gwybyddol

- Mae'n gallu tynnu lluniau syml o wynebau pobl ac anifeiliad. Mae'n gallu copïo llythrennau a rhifau sydd o'i flaen ar bapur, er yn colli diddordeb yn gyflym.
- Dydy Caleb methu dilyn cyfarwyddiadau, ac mae weithiau yn gwneud y gyferbyn a beth mae'r oedolyn yn gofyn iddo wneud. Angen gwella'i ymlyniad yn ystod gwersi a pryd mae'n siarad efo eraill.

Datblygiad Emosiynol

- Mae Caleb yn debygol o gynhyrfu teimladau eraill yn ddyddiol. Nid yw'n deall beth mae wedi gwneud yn anghywir, ac mae angen iddo adnabod a deall emosiwn a teimladau eraill.
- Mae Caleb yn ddewr pryd mae ef wedi brifo.
- Mae'n nodio neu siglo'i ben os mae oedolyn yn gofyn "okay?". Dydy ef ddim yn deall "hapus/happy?" neu "trist/sad?" yn llawn eto.

Datblygiad Cymdeithasol

- Nid yw Caleb medru disgrifio'i deimladau personol.
- Mae'n gweld hi'n anodd siarad yn glir, a methu datganu geiriau'n glir i eraill ddeall beth mae'n dweud. Mwyafrif o'r amser mae'n chwerthin neu gwneud synau i gyfathrebu efo plant eraill yn y dosbarth.
- Mae Caleb yn rhoi cynnig ar chwarae efo plant eraill, er mae'n dod ar draws fel ei bod yn dinistrio'i gem neu amharu oherwydd mae'n wyllt. Mae angen iddo ddatblygu sgiliau i sefydlu perthnasoedd iachus efo plant eraill.

Cafwyd y disgybl help yr Athrawes i ysgrifennu'r proffil un tudalen.

Cynllun Cymorth

<u>Cynllun 6 wythnos</u> Oedran: 4 blwydd oed Datblygu sgiliau emosiynol/cymdeithasol			
	Ffocws y gweithgareddau gyda cymorth staff dosbarth	Cydweithrediad o'r cartref	Cysylltiad gyda'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020).
Wythnos 1	<u>Ffocws:</u> Emosiynol - Chwarae gemau i helpu adnabod gwahanol deimladau ac emosiynau. <u>Gweithgareddau:</u> 1. Gêm cardiau llun 'Snap' yn arddangos gwahanol emosiynau a theimladau, gan gynnwys wyneb hapus, trist, ofnus, swil, cyffrous, crac, a blinedig. Chwarae'r gêm gyda'r athrawes. 2. Actio allan teimladau sydd ar y cardiau, er enghraifft gwneud wyneb hapus, trist, crac ac ati. Tynnu lluniau o wyneb Caleb yn actio'r teimlad gan ddefnyddio tabled ddigidol ar gyfer y dasg i ddilyn. 3. Taflen waith i gyfateb y teimlad i wyneb Caleb. Caleb i dynnu llinell i baru'r teimlad cywir gyda'i lun ef.	Ymarfer a chwarae'r gêm 'Snap' adref. Helpu Caleb adnabod pa deimlad ac emosiwn yw p'un. Gall y fam ddod i mewn i'r ysgol un brynhawn i chwarae gem gyda Caleb os mae gwneud hyn yn y cartref yn mynd i brofi'n heriol.	"Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol fod meddyliau a theimladau yn newid, ac rwy'n dechrau sylwi pan mae newid yn digwydd".
Wythnos 2	<u>Ffocws:</u> Emosiynol a cymdeithasol - Adnabod pryd mae'r teimladau'n digwydd. <u>Gweithgareddau:</u> 1. Dangos lluniau i Caleb o bethau gwahanol sy'n dylanwadu ar gwahanol deimladau ac emosiynau - er enghraifft, anrhegion pen-blwydd, llun plentyn wedi	Parhau i ymarfer a chwarae'r gêm 'Snap' adref, ond yr wythnos yma i wthio llafar Caleb - angen gofyn iddo ddweud beth yw pob teimlad.	"Rwy'n dechrau adnabod y cysylltiad rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n gallu digwydd mewn gwahanol gyd-destunau".

	cwympo a brifo, ci bach newydd. (Awyr agored - modeli weithredoedd gall achosi emosiwn - er enghraifft cwympo drosodd a brifo ar y iard chwarae). 2. I sbarduno elfen o gymdeithasu, rhwng gweithgareddau gall yr athrawes ofyn i Caleb ddweud ar lafar yr holl emosiynau mae'n cofio. I wneud hyn, gall yr athrawes dynnu wyneb, a naill ai bod Caleb yn copio hyn, neu ddweud pa deimlad mae'n teimlo. 3. Gofyn i Caleb dynnu llun gwyneb syml i ddangos sut byddai ef yn ymateb i wahanol sefyllfaoedd, er enghraifft, bwyta cacen ar ei ben-blwydd, canu cân yn ystod y sioe Nadolig, neu blentyn yn gwrthio ef drosto a dim ymddiheuro.		
Wythnos 3	<u>Ffocws:</u> Emosiynol - Adnabod teimladau, a beth gall helpu teimladau negyddol. Gweithgareddau: 1. Defnyddio teganau sydd o gwmpas y dosbarth, a rhoi teimlad i bob tegan gyda sticer gwyneb - teganau teimladau. Bydd yna gardiau gydag rhywbeth i gyfateb y teimlad negyddol o'i amgylch, er enghraifft llun gwely i gyfateb y tegan blinedig, llun cwtsh i gyfateb y tedi trist ac ati. Gofyn iddo baru'r teimlad gyda'r peth byddai'n helpu'r teimlad i asesu pa mor dda mae Caleb yn adnabod a gwybod sut i helpu teimladau eraill. Ymarfer yn ddyddiol nes bod Caleb yn adnabod y teimladau, a beth sy'n helpu'r teimlad. 2. Os mae Caleb yn hyderus gyda'r dasg gyntaf, mae angen darllen allan	Mam Caleb i ddangos pethau o amgylch y tŷ neu'n gorfforol bydd yn helpu Caleb ddeall beth sy'n gwella teimladau negyddol, neu dylanwadu ar teimladau bositif.	"Rwy'n gallu sylwi sut rwy'n teimlo, a chyfathrebu hyn". "Rwy'n dechrau magu ymwybyddiaeth o sut mae teimladau'n cael eu mynegi trwy weithredoedd".

	sefyllfaoedd syml i Caleb yn Saesneg o ddigwyddiadau gall fynd ymlaen yn y dosbarth. Gofyn iddo ddweud pa deimlad sy'n disgrifio'r sefyllfa orau gan ddefnyddio'r teganau teimladau, neu os mae dweud y teimlad ar lafar yn heriol dros ben , gofyn iddo dynnu llun syml o wyneb i cynrychioli'r teimlad.		
Wythnos 4	<u>Ffocws:</u> Cymdeithasol - Dysgu sut mae cymdeithasu'n garedig ac yn effeithiol. Gweithgareddau: 1. Cyflwyno geiriau caredig i Caleb ar lafar sy'n mynd i helpu ef cymdeithasu'n effeithiol. Er enghraifft - "plîs" a "diolch". Gofyn iddo ymarfer dweud ar ôl clywed nhw. 2. Chwarae gêm gofyn - athrawes i cuddio adnoddau o amgylch y dosbarth, ac mae angen i Caleb ofyn am beth mae ef am gael oddi wrth yr athrawes. Er enghraifft, os maent yn chwarae gem adeiladu tŵr allan o flociau, mae'n rhaid iddo ofyn i'r athrawes yn garedig am floc cyn cael gafael ynddo. Dechrau, defnyddio geiriau syml - "bloc plîs" a "diolch". Ymarfer y gêm yma pob dydd, gan adeiladu ar lefel y frawddeg os mae'n dechrau deall y gêm - "Gallai cael bloc plîs?". Sicrhau cywirdeb geiriau Caleb os mae'n dweud rhywbeth yn anghywir.	Modeli sut a phryd i ddweud "plis" a "diolch" o dydd i ddydd.	"Rwy'n gallu dangos gofal a pharch tuag at eraill".
Wythnos 5	<u>Ffocws:</u> Cymdeithasol - Chwarae rôl i ddengys sut mae cyfathrebu yn effeithiol gyda ffrind.	Modeli sut a phryd i ddweud "plis" a "diolch" o dydd i ddydd.	"Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a

	Gweithgareddau: 1. Atgoffa Caleb o'r geiriau caredig a dysgwyd yr wythnos flaenorol ar lafar sy'n mynd i helpu ef cymdeithasu'n effeithiol. Gofyn iddo ail adrodd y geiriau ar lafar, tebyg i ddull modeli Bandura i ddylanwadu ymddygiad y plentyn (Main, 2017). 2. Mynd i'r cornel chwarae rôl yn yr ardal chwarae allanol, ac esgus mynd i'r siop. Modeli i Caleb sut mae gofyn am eitemau o'r siop yn garedig. 3. Mynd i'r cornel chwarae rôl yn yr ardal chwarae allanol. Yr athrawes i rhedeg y siop. Caleb i ofyn am eitemau o'r siop gan ddefnyddio geiriau caredig yn gywir - er enghraifft "afal plis", "dim diolch", "diolch".		phan rwyf i'n garedig wrth eraill".
Wythnos 6	<u>Ffocws:</u> Cymdeithasol ac Emosiynol - Chwarae gyda ffrind neu grŵp o ffrindiau. Gweithgaredd: Drwy'r wythnos, yn ystod amser chwarae tu fewn neu du allan i'r dosbarth, athrawes eistedd gyda Caleb a phwy bynnag mae Caleb yn dewis chwarae gyda. Asesu sut mae Caleb yn chwarae, os mae'n defnyddio iaith gyfeillgar pryd mae'n gofyn am degan wrth rywun, neu ofyn i rywun wneud rhywbeth iddo. Sicrhau bod Caleb yn ymwybodol o deimladau eraill, a'i atgoffa o'r wynebau a theganau teimladau. Os mae Caleb yn gwylltio a brifo teimladau plentyn, bydd angen tynnu allan o'r gêm am ychydig	Gwahodd ei fam i fynychu un prynhawn i wyllo'n chwarae gyda disgyblion eraill.	"Mae gen i ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill". "Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau yn y grwpiau a'r sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw".

	funudau, a'i atgoffa o'r hyn a dysgwyd mewn sesiynau blaenorol.		
--	--	--	--

Asesu wythnosol

(Boxall Profile, 2020) I asesu cynnydd Caleb yn wythnosol, defnyddiwyd proffil Boxall. Mae'r rhaglen yma yn galluogi adnabyddiaeth gynnar i asesu, gosod targedau unigol a cyraeddadwy sy'n atgyfnerthu ymddygiad a sgiliau o fewn y targed, ac mae'n tracio cynnydd yn gyson drwy ddau rhan - llinynnau datblygu a phroffil diagnostig. Caiff ei wirio gan yr athrawes, ac oedolyn arall sy'n adnabod y plentyn orau (ei fam). Mae'n mesur cynnydd trwy wahanol agweddau ac ymddygiad sy'n helpu'r athrawes meddwl ble mae'r ymddygiad yn dod o. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio a rhedeg y cynllun cymorth i dracio cynnydd Caleb yn wythnosol, a gweld pa sgiliau sy'n dda, a beth sydd angen gwella.

Rhestr Gyfeirnod

Boxall Profile (2020) *About the Boxall Profile*. Ar gael yn: <https://new.boxallprofile.org> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2022).

Byrd, F (2020) 'Preschooler Emotional Development', *Web MD*. Ar gael yn: <https://www.webmd.com/parenting/preschooler-emotional-development> (Cyrchwyd: 10 Hydref 2022).

CASEL. (2020) *CASEL's SEL Framework*. Ar gael yn: <https://casel.org> (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).

Cherry, K. (2022) 'Maslow's Hierarchy of Needs', *Very Well Mind*, 14 Awst. Ar gael yn: <https://www.verywellmind.com/what-is-maslows-hierarchy-of-needs-4136760> (Cyrchwyd: 19 Hydref 2022).

Child Discovery Centre. (2018) *What is the Reggio Emilia Approach?* Ar gael yn: <https://childdiscoverycenter.org/non-traditional-classroom/what-is-the-reggio-emilia-approach/> (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).

Comisiynydd Plant Cymru. (d.d) *Deall eich hawliau* [poster]. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/CCfW-A2-Rights-Poster-ENGLISH-AW-Rocio.pdf> (Cyrchwyd: 6 Hydref 2022).

Corsaro, W. (d.d) *Theoretical and Conceptual Issues*. Traethawd ymchwil. Linköping University.

ELSA (2017) *ELSA Network*. Ar gael yn: <https://www.elsanetwork.org> (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).

Estyn. (2018) *Pupil voice shapes the curriculum*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/pupil-voice-shapes-curriculum>. (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).

Estyn. (2020) *Knowing your children - supporting pupils with ACES*. Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-01/Knowing%2520your%2520children%2520%2520supporting%2520pupils%2520with%2520adverse%2520childhood%2520experiences_0.pdf (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).

Fabian, H. a Dunlop, A. (2007) 'Early Childhood Development', *Bernard van Leer Foundation*, Mai. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/252093921_Outcomes_of_Good_Practice_in_Transition_Process_for_Children_Entering_Primary_School (Cyrchwyd: 19 Hydref 2022).

Guy-Evans. O. (2020) 'Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory', *Simply Psychology*, 09 Tachwedd. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Cyrchwyd: 19 Hydref 2022).

Harvard University (d.d) *ACE's and Toxic Stress: Frequently Asked Questions*. Ar gael yn: <https://developingchild.harvard.edu/resources/aces-and-toxic-stress-frequently-asked-questions/> (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).

- lechyd Cyhoeddus Cymru (d.d) *Adverse Childhood Experiences*. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/topics/adverse-childhood-experiences/> (Cyrchwyd: 29 Hydref 2022).
- Impact Wales. (2022) *What are the 12 Pedagogical Principles & How should you use them?* Ar gael yn: <https://www.impact.wales/news/12-pedagogical-principles/> (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).
- Infinite Leader. (2020) *Choice Theory by William Glasser* [fideo]. Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=9cTp5tiElnw> (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).
- Kurt, S. (2019) 'Social Learning Theory: Albert Bandura', *Educational Technology*, Rhagfyr 26. Ar gael yn: <https://educationaltechnology.net/social-learning-theory-albert-bandura/> (Cyrchwyd: 19 Hydref 2022).
- Kurt, S. (2020) 'Vygotsky's Zone of Proximal Development and Scaffolding', *Educational Technology*, Gorffennaf 11. Ar gael yn: <https://educationaltechnology.net/vygotskys-zone-of-proximal-development-and-scaffolding/> (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).
- LibreTexts (2022) 'Barbara Rogoff', 14 Awst. Ar gael yn: https://socialsci.libretexts.org/Bookshelves/Early_Childhood_Education/Child_Family_Community%3A_The_Socialization_of_Diverse_Children/01%3A_Introduction_to_Socialization_and_Theories/1.06%3A_Barbara_Rogoff (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).
- Lynch, A. (2020) 'How ACEs can affect Language Development', *Mable*, 10 Ionawr. Ar gael yn: <https://www.mabletherapy.com/blog/2020/01/10/how-aces-can-affect-language-development> (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).
- Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales> (Cyrchwyd: 15 Hydref 2022).
- Llywodraeth Cymru (2020) *Safonau proffesiynol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/> (Cyrchwyd: 10 Hydref 2022).
- Llywodraeth Cymru (2014) *Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf> (Cyrchwyd: 10 Hydref 2022).
- Main, P. (2017) *Modelling Learning*. Ar gael yn: <https://www.structural-learning.com/post/modelling-learning> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2022).
- Martinelli, K. (2021) 'Why Do Kids Have Trouble With Transitions'. *Child Mind Institute*, Awst 28. Ar gael yn: <https://childmind.org/article/why-do-kids-have-trouble-with-transitions/> (Cyrchwyd: 10 Hydref 2022).
- Mayes, E. a Finneran, R. a Black, R. (2019) 'The challenges of student voice in primary schools: Students having a voice for speaking for others', *SAGE*, Awst. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/334947022_The_challenges_of_student_voice_in_primary_schools_Students_%27having_a_voice%27_and_%27speaking_for%27_others (Cyrchwyd: 12 Hydref 2022).
- Meggitt, C. (2006) *Datblygiad Plant*. 2ail arg. Caerdydd: HartleyWilprint.

- Meinke, H. (2019) 'Exploring the pros and cons of Montessori Education' *Rassumen University*, 11 Ebrill. Ar gae yn: https://www.rasmussen.edu/degrees/education/blog/pros_cons_montessori_education/ (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).
- Messenger, S. (2015) 'Healthy breakfasts help pupils do well', *BBC*, 17 Tachwedd. Ar gae yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-34834832> (Cychwyd: 2 Tachwedd 2022).
- Mind Tools Content Team (d.d) 'Bridges Transition Model', *Mind Tools*,. Ar gae yn: <https://www.mindtools.com/pages/article/bridges-transition-model.htm> (Cyrchwyd: 17 Hydref 2022).
- Mitra, D. (2001) 'Opening the floodgates: Giving students a voice in school reform' *Forum*, 43(2), tt.91–94.
- Rctcbc (d.d) *Transition information for Early Years*. Ar gae yn: <https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SchoolsandLearning/AccessandInclusionintoEducation/WorkinginPartnershipwithParents/SchoolTransitionAdvice/TransitioninformationforEarlyYears.aspx> (Cyrchwyd: 16 Hydref 2022).
- Rees, A. a Gealy, A. (2013) *Chwarae Allan Dysgu Mas*. Caerfyrddin: Canolfan Peniarth.
- Rees, A. a Merriman, E. (2010) 'Tu fewn, tu allan a thu hwnt: golwg ar yr amgylchedd dysgu', yn Siencyn, S (gol) *Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin: Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.
- Richards, C. (2010) 'Tu fewn, tu allan a thu hwnt: golwg ar yr amgylchedd dysgu', yn Siencyn, S (gol) *Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin: Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.
- Sang, S. a Nelson, J. (2017) *The effect of siblings on children's social skills and perspective taking*. Efrog Newydd: Wiley.
- Siencyn, S. (2008) "Cyflwyniad i astudiaethau pentyndod" yn Siencyn, S. (gol) *Y Plentyn Bach*. Caerfyrddin: Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.
- Slade, C. (2022) *Darlith 6 - Adult Childhood Experiences*. Nodiadau darlith, Y dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Dyddiad Darlith: 11 Hydref 2022.
- TEDx Talks. (2015) *The power of inclusive education* [fideo]. Ar gae yn: <https://www.youtube.com/watch?v=ZIPsPRaZP6M> (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).
- Webster-Stratton, C. (2010) *Y Llyfr Melyn*. Llandysul: Gomer.
- Wilson, A. (2009) *Creativity in Primary Education*. 2ail arg. Exeter: Learning Matters Ltd.

Atodiad 1 - Hierarchaeth Maslow



(Cherry, 2022)